

# **Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)**



## **PAPUR CEFNDIR 18 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO**

### **Astudiaeth Prif Ardaloedd Llety Gwyliau**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

**Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd parti; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordians.**

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>4</b>
<b>2. Fframwaith bolisi presennol.....</b>	<b>4</b>
2.1 Llandudno.....	4
2.2 Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn .....	5
<b>3. Adolygiad o barthau llety gwyliau .....</b>	<b>8</b>
3.1 Cyflwyniad.....	8
3.2 Llandudno.....	8
3.3 Llandrillo-yn-Rhos .....	14
3.4 Bae Colwyn.....	14
<b>4. Casgliad .....</b>	<b>16</b>
<b>5. Atodiad 1 .....</b>	<b>17</b>
<b>6. Atodiad 2.....</b>	<b>18</b>
<b>7. Atodiad 3.....</b>	<b>19</b>

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae'r papur hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n dod gyda'r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig i'r Archwilio gan y Cyhoedd. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig, rhaid iddo hefyd egluro sut y lluniwyd y polisïau sydd wedi'u cynnwys ynddo, yn ôl y sail tystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r Papur Cefndir (BP) hwn yn dadansoddi polisïau a'r ddarpariaeth bresennol o lety gwyliau yng nghanolfannau twristaidd Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn. Mae darpariaeth llety gwyliau ym mhob un o'r tair canolfan hon yn cael ei adolygu yn unol â pholisïau sefydledig ar gyfer parthau llety gwyliau, a bydd canlyniadau'r arolwg yn darparu gwybodaeth ar unrhyw newidiadau bwriedig i'r parthau hyn.
- 1.2 Mae'r Papur Cefndir hwn yn cefnogi polisi TOU/3 – 'Parth Llety Gwyliau' fel y'i diffinnir yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd Diwygiedig. Mae'r defnydd o'r term 'llety gwyliau' neu 'llety wedi'i wasanaethu' yn y ddau bolisi presennol a'r Papur hwn yn cyfeirio at westai, tai gwestai a llety gwely a brechwast.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth arolwg o arolygon gweledol a gynhaliwyd gan yr adain polisi cynllunio a'r gronfa ddata llety ymwelwyr, sy'n cael ei gynnal gan y tîm Marchnata Twristiaeth a'r Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol.

## **2. Fframwaith bolisi presennol**

### **2.1 Llandudno**

- 2.1.1 Mae Polisi 3A Cynllun Ardal Llandudno/Conwy (1982) yn nodi y bydd unrhyw fwriad i ail ddatblygu neu drawsnewid gwestai i ddefnyddiau twristaidd eraill neu rai nad ydynt yn dwristaidd yn cael eu hatal yn y Prif Ardaloedd Llety Gwyliau (fel diffinnir ar Fap 1). Mae'r Prif Ardal Llety Gwyliau yn diffinio craidd canolog o lety wedi ei wasanaethu sy'n agos at ganol y dref a'i gyfleusterau gan gynnwys Venue Cymru a'r môr. Mae'r polisi hwn wedi ei ddefnyddio i bennu ceisiadau am lety wedi'i wasanaethu yn Llandudno. Mae Map 1 yn dangos Prif Ardal Llety Gwyliau Llandudno.


2.1.2 Nid yw Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993) yn amlinellu parthau llety gwyliau penodol, ond mae ganddo Bolisi cyffredinol, CH4, sy'n nodi y bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli llety wedi ei wasanaethu mewn trefi gwyliau.

2.1.3 Mae adolygiadau dilynol o barth y ffin wedi arwain at ardal lai yng Nghynllun Dosbarth Aberconwy a Chynllun Datblygu Unedol Conwy, fodd bynnag, roedd y ddwy ddogfen ar ffurf drafft ac mae Cynllun Dosbarth Llandudno Conwy dal yn cael ei defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn Llandudno.

## 2.2 **Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn**


2.2.1 Mae Polisi CT3 Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn (1999) yn diffinio terfynau Parthau Llety Gwyliau yn Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn lle na chaniateir trawsnewid neu ailddatblygu gwestai presennol a thai gwestai ar gyfer defnyddiau eraill oni bai y gellir profi nad oes bellach galw tymor hir am yr eiddo ar gyfer llety wedi'i wasanaethu. Mae'r polisi hwn wedi ei ddefnyddio i benderfynu ar geisiadau llety a wasanaethir yn Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn. Mae Map 2 yn dangos Parthau Llety Gwyliau'r ddwy ganolfan.

# Map 1 – Cynllun Ardal Llandudno/Conwy – Prif Barth Llety Gwyliau Llandudno





**Map 2 – Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn – Parthau Llety Gwyliau Bae Colwyn a Llandrillo-yn-Rhos**



### **3. Adolygiad o barthau llety gwyliau**

#### **3.1 Cyflwyniad**

3.1.1 Mae'n bwysig monitro darpariaeth llety gwyliau ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae gwasanaeth Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol y Cyngor yn cyflawni arolwg o lety ymwelwyr yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy, hynny yw, yr ardal tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Pwrpas yr arolwg yma oedd monitro'r mathau o lety sydd ar gael gan gynnwys y nifer o unedau a gwelyau, cyfraddau cyfartalog aros a rhagamcan o niferoedd gweithwyr fesul math llety. Mae dadansoddiad o'r data yn rhoi darlun cyffredinol ar gyfer pob un o'r tair ardal a gall ddal helpu o ran amlygu meysydd lle mae crynodiad uchel neu isel.

3.1.2 Mae canlyniadau'r arolwg, ynghyd ag ymweliadau safle â Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn wedi helpu sefydlu'r sefyllfa o fewn, ac ochr yn ochr â'r ffiniau parth presennol. Gyda'r wybodaeth yma, mae hi wedyn yn bosibl gwneud newidiadau i ffiniau parthau, lle bo angen, i roi adlewyrchiad gwell o'r ddarpariaeth bresennol o lety gwyliau. Mae canlyniadau'r arolwg wedi cyfarwyddo'n uniongyrchol yr argymhellion a wneir yn y papur cefndir hwn.

#### **3.2 Llandudno**


3.2.1 Mae'r crynhoad uchel o lety gwyliau yng nghanol Llandudno wedi hen sefydlu, ac yn cael ei adlewyrchu gan faint Parth y Cynllun Ardal. Dwedodd yr arolwg llety twristiaeth bod 66% o lety'r sir a gwasanaeth (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol) wedi ei leoli yn Llandudno. Mae crynhoad uchel o lety wedi ei wasanaethu ar hyd y Promenâd, Traeth y Gogledd a Hill Terrace ac ar hyd pen gorllewinol Church Walks (gweler Map 3). Er hynny, roedd pen dwyreiniol y terfyn, ar hyd Tudno Street, Aber Road, Arfon Avenue a Clement Avenue yn dal i gynnwys nifer o lety wedi'u gwasanaethu sy'n ychwanegu at yr ystod a'r amrywiaeth sydd a'r gael yn Llandudno. Er enghraifft, i'r gorllewin o'r Empire Gwesty ar hyd Church Walks at ddiwedd y parc ger Ysgol San Siôr, mae crynhoad yn parhau o tua 33% o lety wedi'u gwasanaethu ar hyd y stryd hon yn seiliedig ar arolwg ymweliad safle.

3.2.2 Mae Map 3 yn dangos fod yna grynodiad o hyd o lety wedi ei wasanaethu yn Llandudno. Fodd bynnag, bu rhai newidiadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a allai effeithio ar aildynnu ffin y parth.



3.2.3 Ar hyd pen dwyreiniol y Brif Ardal Llety Gwyliau, caniatwyd nifer o geisiadau cynllunio (gan gynnwys rhai ar apêl), sydd wedi arwain at gollu llety wedi'i wasanaethu. Mae Atodiad 1 yn rhestru penderfyniadau ar drawsnewid llety gwyliau i ddefnyddiau eraill yn Llandudno ers 2000. Roedd nifer o'r achosion o drawsnewid wedi'u lleoli o fewn y Prif Ardal Llety Gwyliau, yn enwedig ar hyd Church Walks. Gallai trawsnewid stoc gwestai Llandudno i ddefnyddiau eraill wanhau gallu'r dref i gynnal ei statws fel prif gyrchfan dwristaidd. Gallai hefyd niweidio gobeithion Llandudno i ddenu masnach cynadleddau yn y dyfodol a fyddai, yn ei dro, yn cael effaith niweidiol ar ymdrechion i ymestyn y tymor a chryfhau economi'r dref glan môr.

**Map 3 Llety wedi ei wasanaethu yn Llandudno (Ffynhonnell: Cronfa ddata llety twristaidd, 2012)**



3.2.4 Cynigir felly fod Prif Ardal Llety Gwyliau Llandudno'n cael ei gadw gyda rhai newidiadau. Mae angen diogelu'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardaloedd craidd hynny, lle mae crynodiad hanesyddol o lety wedi'u gwasanaethau wedi bodoli, er mwyn cynnal sail gadarn i'r dyfodol. Mae ychwanegu Deganwy Avenue a Chapel Street yn bwysig i ddiogelu crynodiad cryf o lety presennol ar hyd y strydoedd hyn. Ar hyn o bryd, mae 38.7% o'r anheddau/ unedau ar hyd Chapel Street yn llety wedi'u gwasanaethu, ac mae 57.6% o'r anheddau/ unedau ar hyd Deganwy Avenue yn llety wedi'u gwasanaethu. O'r ardaloedd a ychwanegwyd dan gyfeirif map A4, y ganran o lety gwyliau wedi'u gwasanaethu yw 36.4% o'r holl unedau yn yr ardal (gweler Atodiad 2 am enillion a cholledion ar hyd y ddwy stryd dros y ddeg mlynedd diwethaf), ac felly mae'r crynodiad hwn yn haeddu ei diogelu dan y dynodiad hwn.


Amlinellir crynodeb o'r newidiadau bwriedig i'r Prif Barth Llety Gwyliau hwn yn Nhabl 1 ac mae Map 4 yn dangos y ffin wedi'i newid.

**Tabl 1 – Newidiadau i Derfyn y Prif Barth Llety Gwyliau (gweler map 3)**

<b>Lleoliad</b>	<b>Cyfeirif Map</b>	<b>Trafodaeth</b>	<b>Cynnig</b>
Llandudno	A1	Dim ond hanner safle Pafiliwn y Pier sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn dogfennau polisi yn y gorffennol. Credir bydd yn cynorthwyo'r opsiynau ar gyfer defnydd o'r safle yn y dyfodol bod y safle cyfan yn cael ei gynnwys yn y PHAZ	Cynnwys holl safle Pafiliwn y Pier yn y PHAZ
	A2	Dileu Christ Church ar Arvon Avenue a Bod-Hyfryd Road gan nad oes unrhyw lety gwyliau wedi'i Wasanaethu wedi'i leoli yma.	Dileu o'r Parth Llety Gwyliau
	A3	Ychwanegu Chapel Street a Deganwy Avenue gan fod crynodiad uchel o Lety Gwyliau wedi'u Gwasanaethu wedi'i leoli yma.	Ychwanegu at y Parth Llety Gwyliau
	A4	Ychwanegu St David's Road a rhannau o Lloyd Street, Claremont Road, St Seiriol's Road, St David's Place, Trinity Avenue, St Mary's Road a Caroline Road gan fod nifer uchel o Lety Gwyliau wedi'u Gwasanaethu yn yr ardaloedd hyn.	Ychwanegu at y Parth Llety Gwyliau
Craig-Y-Don	A5	Dileu Tafarn The Washinton a Rhif 1-3 East Parade gan nad yw'r adeiladau hyn yn cael eu defnyddio bellach ar gyfer Llety Gwyliau wedi'u Gwasanaethu	Dileu o'r Parth Llety Gwyliau



Map 4 – Newidiadau bwriedig i Barth Llety Gwyliau Llandudno (gweler tabl 1)



### 3.3 **Llandrillo-yn-Rhos**

3.3.1 Mae gostyngiad graddol wedi bod yng nghyfanswm yr unedau llety gwyliau ym Mharth Llety Gwyliau Llandrillo-yn-Rhos. Pan gynigwyd y terfyn yn gyntaf yng Nghynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn, roedd tua 14 o gyfleusterau llety wedi'i wasanaethu yn y parth; mae hyn wedi gostwng ymhellach i 9 cyfleuster. Mae'r unig grynodiad yn parhau ar hyd Promenâd Cayley, lle mae 3 cyfleuster. Mae Map 5 yn dangos yr arolwg mwyaf diweddar o lety wedi ei wasanaethu yn ardal Bae Colwyn, tra bo Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o'r trawsnewidiadau yn Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn.

3.3.2 Mae'r crynodiad llai yn yr ardal o amgylch Everard Road, Whitehall Road a Promenâd Cayley yn golygu bod yr ardal bellach yn un breswyl yn bennaf. Nid oes unrhyw grynodiad o lety gwyliau yn y rhan ogleddol ar hyd College Avenue, Trillo Avenue a Colwyn Avenue.

3.3.3 Cydnabyddir fod rhai gwestai sefydledig yn parhau, ond mae'r diffyg crynodiad yn golygu y byddai'n rhaid asesu unrhyw gynigion i drawsnewid neu newid defnydd o lety wedi ei wasanaethu yn unigol a'i rinweddau unigol. Am y rhesymau uchod, cynigir dileu'r parth llety gwyliau presennol yn Llandrillo-yn-Rhos. Bydd manylion pellach ar yr asesiad o gynigion ar gyfer colli llety wedi'u gwasanaethu yn cael eu darparu yn y Canllawiau Cynllunio Ategol ar Lety Twristaidd.

### 3.4 **Bae Colwyn**


3.4.1 Mae Bae Colwyn hefyd wedi profi gostyngiad graddol yng nghyfanswm y nifer o gyfleusterau llety wedi'u gwasanaethu. Mae nifer y cyfleusterau llety wedi'u gwasanaethu yn yr ardal parth presennol wedi gostwng o tua 16 yn 2000, pan gynigiwyd y terfyn yn wreiddiol, i 6 cyfleuster yn arolwg 2012. Mae'r clwstwr o lety gwyliau amgylch y Promenâd Uchaf a Phromenâd y Gorllewin wedi diflannu wrth i hen westai gael eu dymchwel ac i fflatiau gael eu codi. Mae Atodiad 3 yn rhestru'r colledion ym Mae Colwyn dros y deg mlynedd diwethaf sy'n dangos bod ceisiadau sydd wedi golygu colli llety wedi eu gwasanaethu wedi bod yn llwyddiannus.

3.4.2 Roedd Princes Drive, Ellesmere Road a Marine Road hefyd wedi eu cynnwys yn y parth gwreiddiol. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o lety gwyliau yn yr ardal hon, mae'r strydoedd yn rhai preswyl yn bennaf a does dim crynodiad o lety gwyliau. Fel



gyda Llandrillo-yn-Rhos, dylid asesu unrhyw gynigion i drawsnewid neu newid defnydd llety wedi'u gwasanaethu yn unigol ar ei rinweddau unigol.

**Map 5 – Llety wedi ei wasanaethu yn ardal Bae Colwyn (Ffynhonnell: Cronfa ddata llety twristaidd, 2012)**



3.5 Roedd yr arolwg llety twristiaeth yn ymdrin â holl ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy. Tu allan i'r tair prif ardal llety gwyliau, doedd dim mwy na chrynodiadau cyfatebol o lety wedi eu gwasanaethu mewn unrhyw ardal.



## **4. Casgliad**

- 4.1 Yn gyffredinol, tra bu dirywiad sylweddol iawn yn Llandrillo yn Rhos a Bae Colwyn, ac na fuasent bellach yn cael eu gweld fel prif gyrchfannau gwyliau, mae Llandudno wedi cynnal ei gyfran o lety gwyliau ac yn parhau fel y brif gyrchfan gwyliau yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
  
- 4.2 Mae'r arolwg o barthau llety gwyliau presennol yn Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn wedi arwain at nifer o newidiadau. Y bwriad felly yw cynnal terfyn presennol parth Llandudno, gyda newidiadau bychan. Y bwriad yw cael gwared ar y parthau presennol yn Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn oherwydd yr achosion o golli crynodiad o lety gwyliau yn yr ardal.
  
- 4.3 Bydd y crynodiad o lety gwyliau o fewn ac ochr yn ochr â ffin y parth yn cael ei adolygu fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol yr LDP. Mae'r Fframwaith Gweithredu a Monitro yn yr LDP yn cynnwys targedau a phwyntiau sbarduno ar gyfer polisi monitro TOU/3 Parth Llety Gwyliau.

## 5. Atodiad 1

Ychwanegiadau a cholledion mewn llety wedi'u gwasanaethu yn hen Brif Ardal Llety Gwyliau Cynllun Dosbarth Llandudno/ Conwy 2000-2012

Rhif y Cais (yr un diweddaraf am bob eiddo)	Lleoliad	Dyddiad y penderfyniad	Defnydd presennol	Math o ddatblygiad	Defnydd bwriedig
<b>YCHWANEGIADAU</b>					
0/27702	48 Church Walks	16/9/2003	5 fflat hunangynhwysol	Newid defnydd	Llety Gwely a Brecwast
0/30364	Empire Hotel, Church Walks a 1 Craigwen, Ty Gwyn Road	23/8/2005	Annedd	Trawsnewid ac estyniad	Gwesty
0/38737	40 Church Walks	04/05/2012	Annedd	Trawsnewid	Llety gwely a brecwast
0/33122	12-14 Arvon Avenue	19/4/2007	Tŷ gwesty	Trawsnewid	2 Tŷ Gwestai
<b>COLLEDION</b>					
0/23771	38 Church Walks	2/6/2000	Tŷ Gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/24608	45 Church Walks	26/2/2001	Tŷ Gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/24884	31 Church Walks	30/5/2001	Gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/24949	Blue Cloud Lodge Hotel, Church Walks	15/6/2001	Tŷ gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/26308	8 Clement Avenue	30/9/2002	Tŷ gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/26480	1 Salisbury Road	4/11/2002	Tŷ gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/26672	Bryn Tirion, 44 Church Walks	18/12/2002	Tŷ gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/26767	6-8 a 9 Nevill Crescent	3/2/2003	Gwestai	Trawsnewid	1 Gwesty
0/27269	16 Gloddaeth Street	17/10/2003	Gwesty	Newid defnydd	Cartref ymddeol
0/27742	Rhosyn Hotel, 21 Chapel Street	29/9/2003	Gwesty	Trawsnewid	3 fflat
0/27966	7 Bodhyfryd Road	24/11/2003	Tŷ gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/28698	8 Bodhyfryd Road	8/7/2004	Gwely a brecwast	Newid defnydd	3 fflat hunangynhwysol
0/29683	Bodlondeb Castle Hotel, Church Walks	24/2/2005	Gwesty	Trawsnewid	15 fflat
0/30073	6 York Road	21/6/2005	Tŷ gwesty	Trawsnewid	3 fflat
0/30751	Branksome Hotel, Lloyd Street	30/3/2006	Gwesty	Adeiladu o'r Newydd	8 Annedd
0/36693	75 Church Walks	15/6/2010	Gwely a brecwast	Newid defnydd rhannol	Bwyty
0/37883	Hafod y Mor, 5 Hill Terrace	15/11/11	Tŷ gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/38268	Clarence Hotel	8/3/2012	Gwesty	Newid defnydd rhannol	Bwyty a siop

## 6. Atodiad 2

Ychwanegiadau a cholledion yn yr ardaloedd newydd sydd wedi eu cynnwys ym Mharth Llety Gwyliau diwygiedig Llandudno, 2010-2012

Rhif y Cais (yr un diweddaraf am bob eiddo)	Lleoliad	Dyddiad y penderfyniad	Defnydd presennol	Math o ddatblygiad	Defnydd bwriedig
<b>YCHWANEGIADAU</b>					
0/23415	14 Chapel Street	9/2/2000	Annedd	Trawsnewid	Tŷ Gwesty
0/24136	Cleave Court, 1 St. Seiriols Road	21/9/2000	Annedd	Trawsnewid	Tŷ Gwesty
0/33776	10 St David's Road	26/9/2007	Annedd	Trawsnewid	Tŷ Gwesty
0/34650	5 Claremont Road	20/3/2008	Annedd	Trawsnewid	Tŷ Gwesty
<b>COLLEDION</b>					
0/25262	Banham House Hotel, 2 St. Davids Road	2/10/2001	Tŷ Gwesty	Trawsnewid	Annedd
0/26136	1 Claremont Road	13/8/2002	Tŷ Gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/27742	21 Chapel Street	29/9/2003	Gwesty	Trawsnewid	3 fflat
0/27778	5 Claremont Road	6/10/2003	Tŷ Gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/28544	22-23 Chapel Street	16/6/2004	Gwesty	Trawsnewid	6 fflat
0/30682	10 St David's Road	4/10/2005	Tŷ Gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/31321	17 Chapel Street	28/2/2006	Tŷ Gwesty	Trawsnewid	5 fflat
0/32466	21 Deganwy Avenue	8/1/2007	Tŷ Gwesty	Trawsnewid	4 fflat

## 7. Atodiad 3

Ychwanegiadau a cholledion ym Mharthau Llety Gwyliau Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, 2000-2012

Rhif y Cais (yr un diweddaraf am bob eiddo)	Lleoliad	Dyddiad y penderfyniad	Defnydd presennol	Math o ddatblygiad	Defnydd bwriedig
<b>YCHWANEGIADAU</b>					
0/27155	Holly Tree Guest House, 11 Marine Road, Bae Colwyn	12/5/2003	Tŷ Gwesty	Newid defnydd	Tŷ Gwesty a chanolfan gynadleddau gyda Newid defnydd 2 ystafell wely yn swyddfeydd.
<b>COLLEDION</b>					
0/23624	Rhos Abbey Hotel, Promenade, Llandrillo-yn-Rhos	15/11/2000	Gwesty	Ailddatblygu	30 fflat
0/25500	6-8, Upper Promenade, Bae Colwyn	13/2/2002	Gwesty	Newid defnydd	2 Annedd
0/26729	Monksweir, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos	29/1/2003	Gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/32129	St Enochs a'r Marine Hotel, Promenâd y Gorllewin, Llandrillo-yn-Rhos	11/9/2006	Gwesty	Ailddatblygu	23 fflat
0/34272	Norfolk House, 39 Rhodfa'r Tywysog Drive, Bae Colwyn	21/5/2008	Gwesty	Newid defnydd	Canolfan ailsefydlu breswyl i bobl gyda phroblemau dibyniaeth alcohol / cyffuriau a phobl sy'n ddigartref neu mewn perygl
0/35314	The Rothesay Hotel, Promenâd y Gorllewin, Bae Colwyn	17/8/2009	Gwesty	Ailddatblygu	40 fflat hunangynhwysol
0/36967	63-67 Rhodfa'r Tywysog Drive, Bae Colwyn	11/8/10	Gwesty	Newid defnydd	2 Annedd
0/38194	St Margaret's Hotel, Bae Colwyn	10/10/2011	Gwesty	Newid defnydd	6 fflat
0/38178	10 Ellesmere Road, Bae Colwyn	10/10/2011	Gwesty	Newid defnydd	Annedd
0/37366	12 Ellesmere Road, Bae Colwyn	04/02/2011	Gwesty	Newid defnydd	Cartref preswyl i bobl ifanc